LGBC1m/2003

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 10.30am DDYDD GWENER 31ain IONAWR 2003 YN NHŶ CARADOG, ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD

Presennol

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs S G Smith (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S R Halsall
Mr D H Roberts (Aelod)	Mr C Chapman
	Mr D Carr

1. Cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27ain Tachwedd 2002.

Cytunwyd ar y rhain.

2. Materion yn Codi.

2.1 Gosod Cyfrifiaduron.

2.1.1 Nododd y cyfarfod â siom er bod dau fis ar hugain wedi pasio ers dechrau'r ymarfer, bod materion sylweddol i'w datrys o hyd cyn y gellid sicrhau bod y system ar gael i'w defnyddio.

2.1.2 **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifennydd ysgrifennu at Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datgan siom y Comisiwn, ac yn gofyn am ei gymorth wrth ddatrys y mater.

2.1.3 **Nodwyd** bod yr oedi wrth gwblhau'r ymarfer hwn nid yn unig yn effeithio ar waith y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, ond hefyd ar waith ac amserlen y Comisiwn Ffiniau (Seneddol) i Gymru.

2.2 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

2.2.1 **Nodwyd** bod y trefniadau cychwynnol ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2003 wedi'u cwblhau, a chadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod yn Siambr Cyngor Sir y Fflint ar 8fed Hydref 2003.

2.2.2 **Cytunwyd** y caiff materion ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ac unrhyw siaradwyr gwadd (os o gwbl) eu trafod yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003.

2.3 Arolwg o'r Ffiniau rhwng Cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach, Castell-nedd Port Talbot – Ymateb gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

2.3.1 **Nodwyd** â siom mawr bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot eto wedi methu â darparu'r data y gofynnwyd amdano o ran yr arolwg o'r ffiniau rhwng Cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach.

2.3.2 **Cytunwyd** y dylid ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gan ddatgan yn gryf y cais am y data a chadarnhau siom y Comisiwn ar lefel y cydweithrediad yr oedd yn ei gael gan yr Awdurdod wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

3. Cais am arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Caerffili a Chasnewydd yn ardal Rhisga – ymatebion gan y cynghorau.

3.1 **Nodwyd** bod yr ardal y gwnaed cais i gynnal arolwg ohoni yn ardal Rhisga yn cynrychioli tua 9% o ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili.

3.2 **Cytunwyd** bod ardal o'r fath yn gyfran rhy fawr o'r Awdurdod i'r Comisiwn ystyried cynnal arolwg ohoni heb gael cyfarwyddyd gan y Cynulliad. Roedd hyn yn gyson â phenderfyniad a wnaed gan y Comisiwn ar gais diweddar i gynnal arolwg o'r ffiniau yn ardal Nelson.

3.3 **Cytunwyd** y dylid ysgrifennu at yr Awdurdodau Lleol a phartïon cysylltiedig i'w hysbysu o benderfyniad y Comisiwn, a hefyd y dylai'r Comisiwn ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a'r Cymunedau i'w gwneud yn ymwybodol o'r cais a rhesymau'r Comisiwn dros ei benderfyniad mewn perthynas â hyn.

4. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwmtwrch – crynodeb o'r sylwadau.

4.1 **Nodwyd** nad oedd y gefnogaeth flaenorol tuag at safbwynt Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot mewn perthynas ag Ystâd Ddiwydiannol y Gurnos bellach yn bodoli.

4.2 Cytunwyd y dylid paratoi'r Cynigion Terfynol i adlewyrchu Cynigion Drafft y Comisiwn.

5. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell – crynodeb o'r sylwadau.

5.1 **Nodwyd** y derbyniwyd nifer o sylwadau yn cefnogi barn Cyngor Cymuned Cwmllynfell y dylid cynnwys Cymuned Cwmllynfell o fewn Sir Gaerfyrddin.

5.2 **Cytunwyd** y byddai angen ymgynghoriad cyhoeddus pellach ar y sefyllfa o ran Cymuned Cwmllynfell o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn dynodi na fu'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r arolwg yn effeithiol yn yr achos hwn.

5.3 **Cytunwyd** y dylid ysgrifennu at ohebwyr i'w hysbysu o'r sefyllfa, ac y dylid ystyried y trefniadau ar gyfer ymgynghori ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

6. Cais am arolwg o ffiniau Cymuned Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr.

6.1 Yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Bracla a gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, **cytunwyd** os na allai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddarparu amserlen ar gyfer yr arolwg o'r ffiniau yn ardal Cymuned Bracla fel y nododd y byddai'n ei wneud yn flaenorol, y byddai arolwg ar gyfer yr ardal hon yn cael ei hamserlennu i raglen y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003/2004.

7. Cod Ymarfer ar Benodi Gweinidogion i Gyrff Cyhoeddus

7.1 Nododd y Cyfarfod y Cod.

8. Cynllun Gweithredol 2003/04.

8.1 Yn dilyn trafodaeth, rhoddodd y Comisiynwyr ddiwygiadau i'r cynllun gweithredol drafft ar gyfer 2003/04 i'r Ysgrifenyddiaeth. Byddai'r rhain yn cael eu hymgorffori i fersiwn terfynol i'w gyflwyno i'r Cynulliad yn unol â'r drefn arferol.

9. Adroddiad ar y Gyllideb – Trydydd Chwarter 2002/03.

9.1 Oherwydd yr oedi wrth gwblhau'r gwaith o osod offer technoleg gwybodaeth, efallai y bydd angen cael caniatâd y Cynulliad i'r Comisiwn gario arian a neilltuwyd ar gyfer y gwasanaeth drosodd i'r flwyddyn ariannol ddilynol.

9.2 Byddai prynu Cwpwrdd Llyfrgell, i'w gadw yn Swyddfa'r Cadeirydd, a Chynorthwy-ydd Digidol Personol sy'n cydweddu â GIS yn cael eu trafod yn fuan.

10. Comisiwn Richard – Pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

10.1 **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn ysgrifennu yn gyffredinol ynghylch yr ymchwiliad presennol gan Gomisiwn Richard, a chynnig cydweithredu'n llawn pan fydd Comisiwn Richard yn ymchwilio i faterion etholiadol mewn perthynas â phwerau'r Cynulliad.

10.2 **Cytunwyd** y byddai angen i unrhyw sylw a wnaed gan y Comisiwn fod yn yr arddull fwyaf ffeithiol bosibl er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn parhau yn ddiduedd, mewn perthynas â'r Cynulliad ac yn wleidyddol.

11. Ombwdsmon yng Nghymru – (Comisiynwyr i nodi).

11.1 Rhoddwyd copi o'r ddogfen drafod i'r Comisiwn a gofynnwyd iddynt ddarparu sylwadau i'r Ysgrifenyddiaeth erbyn 5ed Chwefror 2003.

12. Unrhyw Fusnes Arall.

12.1 Cyfarfod Rhyng-Gomisiwn.

12.1.1 Pennwyd 8fed Ebrill 2003 fel y dyddiad ar gyfer y cyfarfod. **Nodwyd** bod cynrychiolwyr o Gomisiwn Llywodraeth Leol Gogledd Iwerddon, y ddau Gomisiwn yn yr Alban a Chomisiwn Seneddol Lloegr wedi derbyn y gwahoddiad.

12.1.2 **Cytunwyd**, yn dibynnu ar pryd y bydd y cynadleddwyr yn cyrraedd y noson cyn y cyfarfod, y dylid cynnal achlysur bach i groesawu gwesteion y Comisiwn.

12.1.3 **Cytunwyd** mai'r Ysgrifenyddiaeth ddylai fod yn gyfrifol am y trefniadau ar gyfer yr achlysur hwn.

12.2 Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

12.2.1 Cadarnhawyd mai dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fyddai 17eg Mawrth 2003 a (dros dro) 8fed Ebrill 2003.

12.3 Cyflwyniad i Gyngor Ewrop – Ieithoedd Lleiafrifol

12.3.1 Nododd y Cadeirydd ei bod wedi rhoi tystiolaeth i'r bwrdd sy'n ymchwilio i ymrwymiad Llywodraethau Prydain i ieithoedd lleiafrifol.

12.3.2 **Nodwyd** er nad oedd y dystiolaeth a ddarparwyd mewn perthynas â methodoleg y Comisiwn, ei ddull o wneud penderfyniadau a'i ymrwymiad i'w gynllun Iaith Gymraeg yn deillio o baragraff 7.1b papur Cyngor Ewrop ar ieithoedd lleiafrifol, y'i derbyniwyd gan aelodau'r bwrdd ymchwilio.

12.4 Etholiadau'r Cynulliad – Canllawiau Ymddygiad

12.4.1 **Cytunwyd** y dylai dyddiad cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar yr arolwg o'r ffiniau yn ardal Cymuned Cwmtwrch ddilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003 i osgoi unrhyw broblemau oherwydd cyfyngiadau cyn-etholiadol sy'n ofynnol gan y Cynulliad.

12.5 Offerynnau Statudol.

12.5.1 **Nodwyd** y gosodwyd offerynnau statudol ar wefan y Llyfrfa mewn perthynas â Gorchmynion Rhanbarthau Etholiadol ar gyfer Gwynedd a Chasnewydd.

12.5.2 **Nodwyd** y gwnaed gorchmynion ar gyfer y Gorchmynion Trefniadau Etholiadol eraill sy'n weddill, ond nad oeddent wedi cael eu gosod ar wefan y Llyfrfa eto.

12.5.3 **Nodwyd** y byddai Gorchmynion Arolwg Cymunedol ar gyfer y cymunedau dan sylw o fewn Sir Ddinbych a Phowys yn cael eu gwneud ar 1 Mawrth 2003.

12.5.4 **Nodwyd** na chaiff y Gorchymyn Arolwg Cymunedol mewn perthynas â Chymunedau o fewn Caerdydd ei wneud tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad.

12.6 Siroedd Cadwedig.

12.6.1 **Nodwyd** gyda phryder, er gwaethaf holl ymdrechion y Comisiwn i gwblhau ei Arolwg o'r Siroedd Cadwedig yng Nghymru o fewn yr amserlen a bennwyd, y llwyddodd i'w wneud, nad oedd y Cynulliad wedi ystyried ei gynigion o hyd.

12.6.2 **Nodwyd** y disgwyliwyd i Gabinet y Cynulliad ystyried cynigion terfynol y Comisiwn ddydd Llun, 27ain Ionawr, ond ei fod wedi'i ohirio tan un o Is-bwyllgorau'r Cabinet a gynhaliwyd ar 29ain Ionawr. Yn anffodus bryd hynny ni lwyddodd i drafod y mater gan nad oedd y Gweinidog yn bresennol.

12.6.3 **Nodwyd** y byddai'r cynigion bellach yn cael eu trafod, gobeithio, yn is-bwyllgor nesaf y Cabinet i'w gynnal ddiwedd mis Chwefror 2003.

12.6.4 **Cytunwyd** y dylid hysbysu'r Comisiwn Ffiniau i Gymru o'r oedi, gan y byddai'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amserlen ar gyfer eu rhaglen waith.

12.7 Hyfforddiant Gloywi.

12.7.1 **Cytunwyd** o ystyried y newidiadau diweddar o ran strwythurau rheoli o fewn Awdurdodau Unedol, y byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiwn gael eu diweddaru ar strwythurau presennol o fewn awdurdodau fel bod unrhyw benderfyniadau neu argymhellion y gallai fod angen iddynt eu gwneud yn cael eu gwneud ar sail briodol.

12.7.2 **Cytunwyd** y dylid gofyn i Mr Frank Cuthbert o Dîm Democratiaeth Llywodraeth Leol y Cynulliad roi cyflwyniad i'r Comisiwn ar y strwythurau presennol o fewn Llywodraeth Leol.

12.7.3 **Cytunwyd** y dylid chwilio am gyfleoedd i'r Comisiynwyr fynychu seminarau ar strwythurau presennol o fewn Llywodraeth Leol.